# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU STATUDOL

Cofnodion cyfarfod Hybrid a gynhaliwyd ar 1 Gorffennaf, 2026.

Mae agenda'r Pwyllgor ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

**I weld y cyflwyniad a'r drafodaeth ddilynol ar gyfer unrhyw eitem agenda Rhan I, cliciwch ar yr hypergyswllt sydd wedi'i gynnwys yn ei deitl isod.**

Yn bresennol: Y Cynghorwyr P. Drake, W.A. Hennessy a J.M. Norman.

Hefyd yn bresennol: S. Dovey ac N. Pagano (Cynrychiolwyr yr Ymgeisydd), Mr. a Mrs. D. Murphy ac M. Withers (Partïon â Diddordeb), K. Evans (Swyddog Trwyddedu – Cyngor Bro Morganwg), R. Price (Prif Swyddog Cyfreithiol – Cyngor Bro Morganwg), M. Swindell (Swyddog Gwasanaethau'r Cabinet a'r Pwyllgor – Cyngor Bro Morganwg).

(a) Cyhoeddiad –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Clerc y datganiad a ganlyn: “A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol".

(b) Penodi Cadeirydd –

PENDERFYNWYD – Y dylid penodi’r Cynghorydd P. Drake yn Gadeirydd am hyd gwrandawiad yr Is-bwyllgor.

(c) Datganiadau Buddiant –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

(d) Cais am Drwydded Safle Newydd yng Nghaffi Cosmeston Lakeside (CAT) –

Ystyriodd yr Is-bwyllgor y cais a oedd yn ceisio penderfynu ar gais am drwydded safle yng Nghaffi Glan Llyn Cosmeston, Parc Gwledig Llynnoedd Cosmeston, Heol Larnog, Penarth, Bro Morganwg CF64 5UY.

Mynychwyd y gwrandawiad gan gynrychiolwyr yr Ymgeisydd o Big Fresh Catering Company Limited, S. Davey ac N. Pagano, a wnaeth gynrychioliadau ar ran yr Ymgeisydd, a hefyd gan Mr. a Mrs. D. Murphy a Mr. M. Withers a wnaeth gynrychioliadau yn gwrthwynebu'r cais.

Amlinellodd y Swyddog Trwyddedu yr adroddiad a ddosbarthwyd i bob parti cyn cyfarfod y Pwyllgor. Cafodd y cais ei hysbysebu'n briodol, ac eglurwyd bod y cais wedi'i ddiwygio yn ystod y cyfnod ymgynghori ar gyfer gwerthu alcohol ar ac oddi ar y safle o ddydd Llun i ddydd Sul rhwng 12:00 o'r gloch a 22:30 o'r gloch. Roedd y safle yn gaffi cyhoeddus sefydledig a oedd ag ardal fwyta fewnol a chegin gyda chyfleusterau tai bach. Roedd Heddlu De Cymru wedi tynnu sylwadau'n ôl gan fod amodau wedi'u cytuno gyda'r Ymgeisydd. Byddai gwerthiant alcohol yn cael ei gyfyngu i'r ardal allanol a byddai gofynion tocynnau a chyfyngiadau oedran, fel negeseuon yn ymddangos ar y til, yn berthnasol mewn rhai achosion. Derbyniwyd ymatebion gan drigolion a'r Aelod lleol a gododd bryderon yn ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, effaith ar fywyd gwyllt, sbwriel a natur dawel y parc. Gwnaeth yr Ymgeisydd ddatganiad mewn ymateb a gynhwyswyd yn Atodiad D. Yn flaenorol, cafodd trwydded yn y safle ei hildio ym mis Chwefror 2026 a oedd yn gweithredu rhwng 07:00 o'r gloch a 23:00 o'r gloch.

Gan fod sylwadau perthnasol wedi cael eu derbyn yn gwrthwynebu'r cais arfaethedig, gofynnwyd i'r Aelodau benderfynu ar y cais.

Nododd yr Is-bwyllgor fod cynrychiolaeth wedi cael ei dderbyn i ddechrau gan Heddlu De Cymru fel Awdurdod Cyfrifol. Fodd bynnag, tynnwyd eu cais am wrandawiad yn ôl wedyn a chytunwyd ar amodau trwyddedu gyda'r Ymgeisydd. Cynigiwyd bod yr amodau hynny yn cael eu hatodi i'r drwydded pe bai'r Is-bwyllgor yn ystyried caniatáu'r cais, ac mae manylion yr amodau wedi’u rhestru ym Mharagraff 4.3 o'r adroddiad.

Ar ôl hynny, gwnaeth Mr S. Davey, fel Cynrychiolydd yr Ymgeisydd, gynrychiolaeth lafar a rhoi gwybod bod y drwydded wedi'i chynllunio i ddod ag incwm ychwanegol i mewn a chwmpasu digwyddiadau gyda'r nos. Ychydig iawn o alcohol fydd yn cael ei werthu a bydd yn eilradd i weithrediad y caffi. Byddai digwyddiadau fel 'Sip and Stitch', a esboniwyd i'r Aelodau, yn caniatáu darparu poteli o win, ond nid oedd unrhyw fwriad i darfu ar natur a byddai'r trwyddedai yn gweithio gyda'r Ceidwaid. Ni fyddai modd mynd ag alcohol i'r parc ehangach, a byddai'r safle’n cael ei reoli fel y safle ym Mhier Penarth. Nod y cais oedd ehangu’r arlwy o gynhyrchion ac nid oedd i fod i achosi pryder i'r gymuned leol. Byddai digwyddiadau bach gydag ardal eistedd o 66 y tu mewn i'r safle a byddai alcohol yn cael ei weini ochr yn ochr â bwyd.

Gofynnwyd i Gynrychiolydd yr Ymgeisydd sut y byddent yn atal alcohol rhag cael ei gymryd i'r parc ehangach. Eglurwyd y byddai staff yn cael eu hyfforddi, byddent yn gweithio gyda'r Ceidwaid ac yn wyliadwrus. Cynghorwyd yr aelodau fod blwch awgrymiadau wedi arwain at y cais am ddarparu alcohol. Gofynnodd Mr Withers am nifer y staff a fyddai'n bresennol ac fe'i cynghorwyd y byddai nifer y staff yn ddigon ar gyfer nifer yr ymwelwyr. Cafodd ei hysbysu bod chwe mainc bicnic yn yr ardal allanol ac nad oedd unrhyw gynlluniau i ymestyn yr ardal eistedd allanol. Gofynnwyd i Mr Murphy a fu unrhyw broblemau pan oedd alcohol yn cael ei weini’n flaenorol, a dywedodd nad oedd yn gallu cofio unrhyw rai, ond nid oedd unrhyw beth wedi ymestyn i'r nos, o'r hyn yr oedd yn ei gofio.

Dywedodd Mr Murphy ei fod yn pryderu y byddai dibyniaeth ar staff i blismona'r alcohol. Dywedodd nad oedd yn gwybod y niferoedd a fyddai'n mynd i’r

digwyddiadau â thocynnau. Dywedodd Mr Withers fod ardal y patio yn wynebu'r llyn gyda gwydr yn wynebu'r fflatiau llaid, bod pobl eisoes yn mynd ag alcohol i'r llynnoedd ac nad oedd y cyfle i ymestyn y cyfle hwnnw yn briodol. Trafododd gysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus, parcio a gwaith adeiladu newydd ynghyd â pharchu'r tir, fodd bynnag, cadarnhawyd nad oedd materion yn ymwneud â pharcio yn faterion i'r Pwyllgor Trwyddedu.

Fel datganiad cloi, dywedodd Cynrychiolydd yr Ymgeisydd pe bai digwyddiadau tocynnau mwy o faint, byddai diogelwch drws yn cael ei ddefnyddio ac esboniodd ei fod yn deall pryderon trigolion ac eisiau gweithio gyda'r gymuned.
Roedd sylwadau ysgrifenedig yr holl bartïon wedi cael eu hystyried.

Yn dilyn hyn, gadawodd Cynrychiolydd yr Ymgeisydd, y Parti â Diddordeb a'r Swyddog Trwyddedu a fu’n bresennol y gwrandawiad, a thrafododd yr Is-bwyllgor Trwyddedu y cais yn breifat gyda chefnogaeth Swyddog Cyfreithiol a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd y Cyngor.

PENDERFYNWYD –

(1) Y dylid caniatáu'r cais am drwydded safle yng Nghaffi Glan Llyn Cosmeston, Parc Gwledig Llynnoedd Cosmeston, Heol Larnog, Penarth, Bro Morganwg CF64 5UY gan fod y cais a'r amodau wedi'u haddasu yn gyson â'r amserlen weithredu mewn ffordd a ystyriwyd yn briodol ar gyfer hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

(2) Y dylai'r amodau cymeradwyo gynnwys yr amodau y cytunwyd arnynt gyda Heddlu De Cymru ac sydd wedi'u cynnwys yn Atodiad B i'r adroddiad.

<u>Rhesymau dros benderfyniadau</u>

(1) Wrth ddod i'w benderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y cais ynghyd â phawb a wnaeth gyflwyniadau ysgrifenedig a llafar. Roedd y Pwyllgor wedi ystyried Deddf Trwyddedu 2003 fel y'i diwygiwyd, yn enwedig yr amcanion trwyddedu a Chanllawiau'r Swyddfa Gartref ynghyd â Datganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor.

(2) Roedd yr Aelodau'n fodlon bod y safle wedi gweithredu gydag oriau hirach yn flaenorol o fis Hydref 2015 heb unrhyw broblemau'n codi. Roeddent yn fodlon y byddai'r amodau a gytunwyd gyda Heddlu De Cymru yn mynd i'r afael â'r pryderon a fynegwyd gan drigolion. Ni chodwyd unrhyw bryderon gan yr Heddlu o ran trosedd ac anhrefn sy'n gysylltiedig â'r cais. Roedd yr Aelodau'n hyderus, gan fod y cynnig a gynigiwyd er enghraifft, 'Sip and Stitch', yn seiliedig ar ymgysylltu â'r gymuned, y byddai'r cwmni'n ymgysylltu'n weithredol â'r gymuned ac yn mynd i'r afael ag unrhyw bryderon pe byddent yn codi. Nid oedd materion yn ymwneud â pharcio yn faterion i'r Pwyllgor Trwyddedu. Yn yr un modd, nid swyddogaeth y Pwyllgor oedd mynd i'r afael â phryderon yn ymwneud ag aelodau'r cyhoedd a allai fod yn dod ag alcohol i'r parc o sefydliadau eraill ar hyn o bryd.